

Canllawiau cerdyn gweithredu

- Dylid defnyddio'r cerdyn gweithredu hwn ar y cyd â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru.
- Mae'n tynnu sylw at gamau gweithredu pwysig i reoli haint COVID-19 mewn ysgolion a lleoliadau.

Gosod y cyd-destun

- Canllawiau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd, gan gynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yw'r rhain.
- Mae'r canllawiau hyn yn mynnu eich bod yn cynnal asesiad risg COVID-19, a dylech ymgynghori â'r gweithlu/undebau. Dylid adolygu'r asesiad yn rheolaidd, yn enwedig pan fydd y Lefel Rhybudd yn cael ei newid yn yr ardal lle mae'r ysgol wedi'i lleoli.
- Dylid dilyn egwyddorion 'hierarchiaeth rheolaethau' bob amser wrth reoli COVID-19 yn eich ysgol.
- Ceir canllawiau llawn ar y newidiadau i'r addysgu a'r dysgu mewn ysgolion a lleoliadau yn www.llyw.cymru/ysgolion-canllawiau-coronafeirws.

Sut mae cadw COVID-19 allan o'n hysgol?

Yn unol â'r canllawiau 'gweithio'n ddiogel', mae'r camau gweithredu allweddol gallwch chi eu cymryd i fod mor ddiogel â phosibl o ran Covid wedi cael eu hamlinellu isod:

- Ni ddylai dysgwyr neu staff fynychu ysgolion neu lleoliadau o dan unrhyw amgylchiadau os ydynt:
 - yn teimlo'n sâl a/neu os oes ganddynt unrhyw un o'r symptomau COVID-19 a nodwyd: mae angen iddyn nhw ac unrhyw un yn eu cartref hunanynysu ar unwaith a threfnu prawf COVID-19;
 - wedi profi'n positif am COVID-19 ac wedi cael cyfarwyddyd i hunanynysu;
 - yn byw ar aelwyd gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19, neu sydd wedi profi'n positif: dylai pob aelod o'r aelwyd hunanynysu.
- Pan fydd aelod o staff neu ddysgwyr yn mynd yn sâl yn yr ysgol/lleoliad a'u bod yn arddangos symptomau posibl COVID-19:
 - dylid eu hanfon adref ar unwaith i hunanynysu a threfnu prawf COVID-19;
 - hyd nes y byddant yn gadael yr ysgol/lleoliad (yn achos dysgwyr, hyd nes y caiff ei gasglu gan riant/gofalwr) dylid lleihau eu cysylltiad â phob unigolyn arall yn yr ysgol/lleoliad;
 - os yw'n bosibl, sicrhewch eu bod yn aros mewn ystafell ar wahân nes eu bod yn gallu gadael yr ysgol/lleoliad;
 - os yw'r prawf yn positif, bydd gofyn i'r 'swigen ddoesbarth' hunanynysu am 10 diwrnod.
- Mae pecynnau profi gartref ar gael i bob ysgol/lleoliad er mwyn i staff gymryd profion ddwywaith yr wythnos. Mae'r profion yn wirfoddol, ond anogir y rhai sy'n gymwys i gael profion i gymryd rhan a chael eu profi, er mwyn lleihau ymhellach y risg o drosglwyddiad asymptomatig yn y gweithle.
- Cadwch nifer y cysylltiadau rhwng unigolion mor isel â phosibl; mae hynny'n berthnasol i'r staff ac i ddysgwyr. Ar gyfer dysgwyr, rhoddir pwyslais ar lunio grwpiau a sicrhau bod y grwpiau hynny'n cadw

- ar wahân, gan wasgaru amseroedd dosbarthu, prydau a chwarae er mwyn osgoi bod grwpiau yn cymysgu. Ar gyfer dysgwyr hŷn, gofynnir iddynt hefyd gadw pellter cymdeithasol/corfforol os yw'n bosibl.
- Dylai'r staff osgoi cysylltiadau â gwahanol grwpiau/nifer o grwpiau oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol, ac yn ddarostyngedig i asesiad risg.
- Dylai staff gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ddysgwyr a staff eraill gymaint â phosibl ar draws safle'r ysgol. Mae hynny'n cynnwys manau cymunedol, ystafelloedd staff, yn ystod cyfarfodydd ac wrth ddefnyddio'r toiledau.
- Dylid golchi dwylo'n drylwyr yn amlach nag arfer gyda sebon a dŵr am o leiaf 20 eiliad, a defnyddio hylif diheintio dwylo, yn enwedig os nad oes sebon a dŵr ar gael.
- Atgoffwch rieni/gofalwr am drefniadau gollwng a chasglu, o ran na ddylent ymgynnull wrth gatiadau ysgolion, ac ni ddylai pobl o wahanol aelwydydd gymysgu (e.e. ni ddylid rhannu ceir i deithio i'r ysgol/lleoliad ac oddi yno, na chymysgu ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol).
- Os bydd angen, dan amgylchiadau penodol, dylid gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol (PPE). Mae hynny'n cynnwys wrth ddelio ag achosion tybiedig o COVID-19, ac wrth ddarparu gofal personol i blentyn neu berson ifanc. Ceir rhagor o fanylion yn www.llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-pan-fydd-cyfyngiadau-ar-niferoedd-dysgwyr-htmlldau-ar-niferoedd-disgyblion-ar-lefel.

Beth ddylw ei wneud pan fydd dysgwyr neu aelod o'r staff yn cael canlyniad positif am COVID-19?

- Os bydd canlyniad prawf positif, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r person a brofwyd i helpu i ddod o hyd i gysylltiadau posibl.
- Yna bydd ail swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r cysylltiadau hynny ac yn eu hysbysu i hunanynysu yn sgil eu cysylltiad diwethaf â'r unigolyn a brofwyd yn positif. Dim ond os byddant yn datblygu symptomau y bydd yn ofynnol i'r bobl hynny gael prawf.
- Dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt brosesau ar waith, wedi'u hategu gan drefniadau eistedd lle y bo'n briodol, i'w gwneud yn rhwydd dod o hyd i gysylltiadau'n gyflym, a'u rhannu â'r swyddog olrhain cysylltiadau. Gall prydlondeb o ran ymateb eich ysgol fod yn hanfodol i leihau effaith yr haint ar eich ysgol.
- Os bydd clwstwr o achosion yn digwydd yn yr ysgol, rhoddir enw person cyswllt, penodedig o'r tîm Profi Olrhain Diogelu i aelodau'r clwstwr. Gall yr aelodau roi gwybod i'r person cyswllt hwnnw am achosion newydd neu godi unrhyw bryderon eraill, megis nifer cynyddol o achosion posibl.
- Felly, nid oes angen cau'r safle os bydd canlyniad prawf positif ar y safle. Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r broses 'normal newydd' o leihau risgiau, a phan fydd ysgolion a lleoliadau'n dilyn canllawiau'n ofalus, nid oes angen poeni.
- Os bydd dysgwyr sy'n agored i niwed yn hunanynysu, mae'n bwysig bod ysgolion yn rhoi systemau ar waith i gadw mewn cysylltiad â nhw, cynnig cymorth bugeiliol, a gwneud yn siŵr eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth addysgol.

Sut mae atal yr haint rhag lledaenu yn fy ysgol?

Os bydd 2 achos neu fwy yn eich ysgol/lleoliad (gan gynnwys staff, plant ac ymwelwyr) yn cael canlyniad positif am COVID-19 mewn cyfnod o 14 diwrnod, bydd angen ichi ystyried a oes risg gynhenid yn y lleoliad:

- Dylid adolygu eich asesiad risg COVID-19, gan gynnwys y mesurau sydd gennych ar waith yn yr ysgol/lleoliad, nifer y plant sy'n mynychu, cysondeb y staff sy'n gweithio gyda grwpiau o ddysgwyr a'r mesurau rheoli heintiau.
- Dylid meithrin cysylltiadau da rhwng y staff a chynrychiolwyr undebau a rhieni i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r cynllun diwygiedig. Mae gwneud hynny'n hanfodol ac yn cynnig cyfle i gadarnhau arferion da a sicrhau bod pawb yn deall arwyddion a symptomau COVID-19 a'u bod yn gweithredu'n briodol, h.y. hunanynysu a chael eu profi.
- Bydd unrhyw glwstwr yn yr ysgol/lleoliad yn golygu y bydd yr awdurdod lleol yn cael ei hysbysu i weithredu. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn gallu eich cefnogi a'ch cynghori ar y camau eraill y gallwch chi eu cymryd i liniaru'r risgiau sy'n parhau. Un o'r camau efallai y byddwch chi eisiau ei gymryd yw profi'r holl staff i ddod o hyd unrhyw unigolion asymptomatig.

Dolenni at ganllawiau allweddol:

www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel-mewn-addysg

www.hse.gov.uk/coronavirus/assets/docs/risk-assessment.pdf (Saesneg yn unig)

www.llyw.cymru/ysgolion-canllawiau-coronafeirws

www.hse.gov.uk/coronavirus/working-safely/risk-assessment.htm (Saesneg yn unig)

www.llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws

www.hse.gov.uk/coronavirus/working-safely/risk-assessment.htm (Saesneg yn unig)

